



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board



Mae Brechu yn  
achub bywydau  
Vaccination  
saves lives

# Gwybodaeth am frechiadau plant

Brechu yw'r peth pwysicaf y gallwn ni ei wneud i'n diogelu ni a'n plant rhag salwch, ac i atal lledaenu heintiau.

Gall yr amserlen hon eich helpu i gadw golwg ar ba frechiadau sy'n ddyledus i'ch plentyn a phryd y mae angen iddo eu cael.

Bydd eich Ymwelydd Iechyd yn ymweld yn fuan ar ôl genedigaeth eich plentyn, a bydd yn rhoi gwybodaeth a chyngor am frechiadau plentyndod i chi.

## Oedran cynradd

Bydd eich plentyn yn cael cynnig y brechlyn ffliw yn y trwyn drwy gydol yr ysgol gynradd, o ddechrau derbyn hyd at a gan gynnwys Blwyddyn 6.



## 0-4 oed

Bydd eich plentyn yn cael gwahoddiad i gael brechiadau rheolaidd yn **8 wythnos, 12 wythnos, 16 wythnos, 12 mis oed**, ac yn fuan ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Bydd hefyd yn cael cynnig brechlyn ffliw o 2 oed.



## Oedran uwchradd

Bydd plant yn parhau i gael cynnig brechlyn ffliw drwy gydol yr ysgol uwchradd, hyd at a gan gynnwys Blwyddyn 11.

## 12 - 13 oed

Rhwng 12 a 13 mlwydd oed bydd eich plentyn yn cael cynnig y brechlyn HPV.

## 13 - 14 oed

Rhwng 13 a 14 mlwydd oed, bydd eich plentyn yn cael cynnig ei frechiad atgyfnerthu i bobl ifanc yn eu harddegau, sef y brechiad MenACWY, sy'n amddiffyn rhag pedwar achos gwahanol o lid yr ymennydd a septisemia. Gellir rhoi unrhyw frechiadau plentyndod sydd heb eu rhoi ar yr adeg hon.



## Ffeithiau am y brechlynnau:

### Maen nhw yn:

- ✓ Amddiffyn eich plentyn rhag llawer o glefydau difrifol a allai fod yn farwol
- ✓ Diogelu eraill yn eich teulu a'ch cymuned
- ✓ Cael profion diogelwch trylwyr
- ✓ Achosi weithiau sgil effeithiau ysgafn na fydd yn para'n hir - gall rhai plant deimlo ychydig yn sâl neu fod ganddynt boen yn y fraich am 2 neu 3 diwrnod

### Dydyn nhw ddim yn:

- × Gorlwytho neu wanhau'r system imiwneidd - mae'n ddiogel i roi nifer o frechlynnau ar yr un pryd ac mae hyn yn lleihau nifer y pigiadau
- × Achosi alergeddau nac unrhyw gyflyrau eraill
- × Cynnwys unrhyw gynhwysion sy'n achosi niwed mewn symiau mor fach - ond siaradwch â'ch meddyg os oes gan eich plentyn unrhyw alergeddau hysbys fel wyau, neu rydych yn dymuno osgoi cynhyrchion gelatin

Ble mae brechiadau'n cael eu rhoi?

**Rhai yn eich meddygfa, rhai yn ysgol eich plentyn.**

Sut bydda i'n gwybod pryd mae fy mhientyn i fod i gael brechiadau?

**Anfonir llythyr neu neges destun atoch, neu fe'ch gelwir i'ch atgoffa pan fydd eich plentyn angen ei frechu.**

Beth os yw fy mhientyn wedi methu brechiadau?

**Mae'n well cael brechlynnau ar amser, ond nid yw byth yn rhy hwyr. Gellir rhoi'r rhan fwyaf o frechlynnau yn ddiweddarach o hyd.**

**Cysylltwch â'ch meddygfa yn yr achosion canlyno:**

- Mae'ch plentyn wedi methu unrhyw frechiadau.
- Mae gan eich plentyn apwyntiad brechu na allwch fynd iddo, gallant aildrefnu apwyntiad ar eich cyfer

Os hoffech ragor o wybodaeth siaradwch â'ch Meddyg, Ymwelydd Iechyd, Nyrs Ymarfer neu ffoniwch **Iechyd Plant ar 029 218 36926 / 029 218 36929.**

**Am fwy o wybodaeth ewch i [cavuhb.nhs.wales/patient-advice/local-public-health-team/key-areas-of-focus/immunisations/childhood-immunisations/](https://cavuhb.nhs.wales/patient-advice/local-public-health-team/key-areas-of-focus/immunisations/childhood-immunisations/) neu sganiwch y cod QR hwn gyda'ch ffôn i agor y wefan.**



**Dyw hi byth yn rhy hwyr i gael y brechlynnau sydd eu hangen.**